# CYNGOR SIR CEREDIGION

## Adolygiad o Gymunedau a Threfniadau Etholiadol
## Polisi Maint y Cyngor

Cyn bod Cyngor Sir Ceredigion yn adolygu ffiniau ei gymunedau, mae'r ddogfen hon yn ceisio pennu ein Polisi Maint y Cyngor. Mae wedi cael ei ddrafftio gan ystyried adrannau 3.11 i 3.14 o Arweiniad i Brif Gynghorau Ar Gynnal Arolygon Cymunedol – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a gyhoeddwyd yn 2022. Hefyd rhoddwyd ystyriaeth i brofiadau Awdurdodau Lleol eraill Cymru, a'r gwersi a ddysgwyd.

Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar ddull trefol a gwledig:

**Trefol**

Yn y Cynllun Datblygu Lleol nodwyd bod y trefi canlynol yn Ganolfannau Gwasanaethau Trefol: Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.

- Sicrhau fod pob ardal a grëir ar gyfer cyngor tref yn cael ei chynrychioli gan ddim mwy na 21 cynghorydd a dim llai na 7 cynghorydd.

- Sicrhau fod y gymhareb o gynghorwyr i etholwyr yn ddim llai na 1 : 600.

**Gwledig**

- Sicrhau fod dim llai na 400 o etholwyr mewn ward gymunedol;

- Sicrhau fod dim llai na 800 o etholwyr mewn ardal cyngor cymuned (hynny yw, cyfanswm wardiau'r gymuned o fewn ardal y cyngor tref/cymuned);

- Ystyried dadleuon cryf, ar sail tystiolaeth, ar gyfer creu ward gymunedol sydd â llai na 400 o etholwyr;

- Lle bo'n bosib, cael gwared ar wardiau cymunedol a bod cynrychiolaeth y cynghorwyr yn seiliedig ar ardal gyfan y cyngor cymuned; a bod y praesept a gesglir o bentrefi llai ar gael i bob ward gymunedol.

**Cyffredinol**

Mae'r Cyngor yn derbyn na fydd yn medru gweithredu un ateb sy'n addas i bawb wrth bennu ardaloedd cyngor tref/cymuned a wardiau cymunedol yng Ngheredigion. Serch hynny, mae'r Cyngor yn credu bod angen gweithredu dull cyson o ran y gynrychiolaeth y bydd cymunedau a wardiau cymunedol yn eu darparu.

Dylai’r Polisi Maint y Cyngor sicrhau’r clymau cymunedol a’r darn o dir (hynny yw, maint daearyddol unrhyw Gyngor Cymuned arfaethedig).

Dylid nodi **nad** yw'r cymarebau a nodir uchod yn gyfarwyddyd a’u bod yn destun ymgynghoriad. Defnyddir y cymarebau yn y polisi hwn fel cyfeirbwynt. Dylid ystyried pob ardal yn ôl ei theilyngdod ei hun gan roi sylw i’r boblogaeth, daearyddiaeth a phatrwm y cymunedau.

Wrth benderfynu a oes angen cynrychiolaeth ychwanegol ar gymuned, bydd y cyngor yn ystyried nifer y seddi diwrthwynebiad ar lefel gymunedol. Dylid nodi hefyd mai ffiniau'r cymunedau fydd yn llywio'r adolygiad, nid y trefniadau etholiadol.

Mae’r Cyngor yn cydnabod y bydd y cymarebau hyn yn dal i ddarparu cynrychiolaeth amrywiol ledled Ceredigion, ond bydd yn sicrhau fod lefel y gynrychiolaeth a dderbynnir yn gyson mewn cymunedau sydd â nodweddion tebyg. Ar yr un pryd bydd y Cyngor yn sicrhau fod cymunedau llai a gwledig yn cael cynrychiolaeth ddigonol ar lefel llywodraeth leol.

DRAFT